Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yng:

## **Nghonwy Sir Ddinbych**

ISBN: 978-1-84099-355-4

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yng Nghonwy Sir Ddinbych ei gynnal fel rhan o'r rhaglen Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc yn yr ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Wrth edrych ar yr ardal yn ei chyfanrwydd, gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi'u gwneud yn ddigon da 69% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau *Risg pob unigolyn o achosi Niwed* i Eraill ei wneud yn ddigon da 65% o'r amser, a chafodd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 74% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1.

Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer *Gwaith Diogelu* oedd 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* oedd 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* oedd 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50-82%.

Yn strategol, mae'r Tîm Troseddwyr Ifanc (TTI) yn ymwybodol o'r meysydd lle mae angen gwella ac roedd cynlluniau ar waith eisoes i gryfhau'r strwythur rheoli. Roedd y Tîm wrthi hefyd yn edrych ar ffyrdd o wella ansawdd rheoli achosion a systemau cofnodi. Dylai'r datblygiadau hyn wella ansawdd y gwaith a wneir yn y Tîm. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y darganfyddiadau hyn yn rhai calonogol.

*Andrew Bridges*

*Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi*

*Awst 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i’r holl staff o’r Gwasanaeth, i aelodau’r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Mark Boother* |
| *Arolygwyr* | *Keith Humphreys* |
| *Asesydd CCI* | *Kristina Ash* |
| *Staff Cymorth* | *Andy Doyle* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Julie Fox* |

## Cynnwys


| | | Page |
|---|---|---|
| | Cydnabyddiaeth | 4 |
| | Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 7 |
| | Y Camau Nesaf | 7 |
| | Persbectif y defnyddwyr gwasanaeth | 8 |
| | Rhannu arferion da | 9 |
| 1. | ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| | 1.1 Risg o Niwed i eraill (RoN) | 10 |
| | 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA) | 11 |
| | 1.3 Diogelu | 12 |
| 2. | DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 14 |
| | 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau Risg o Niwed i eraill | 14 |
| | 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | 15 |
| | 2.3 Diogelu'r plentyn neu berson ifanc | 16 |
| 3. | CANLYNIADAU | 18 |
| | 3.1 Sicrhau canlyniadau | 18 |
| | 3.2 Cynnal canlyniadau | 18 |
| | Atodiad 1: Crynodeb | 20 |
| | Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 21 |
| | Atodiad 3a: Siartiau o ddata'r Arolygiad | 22 |
| | Atodiad 3b: Data'r arolygiad | 23 |
| | Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer | 23 |
| | Atodiad 5: Rhestr Termau | 24 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canrannol ar gyfer pob ‘maen prawf ymarfer’ sy’n dangos pa mor aml oedd pob agwedd ar y gwaith yn cyrraedd y safon a ddisgwylid gennym. Yn yr arolygiadau hyn yr ydym yn canolbwyntio’n bennaf ar agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu’r gwaith ym mhob sampl o achosion.

Ar sail hynny, yr ydym yn dyfarnu sgôr sy’n dangos pa mor aml oedd agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu’r* achosion a aseswyd gennym yn cyrraedd y safon a ddisgwylid gennym, ac maent wedi’u crynhoi yma.

Yr ydym hefyd wedi cynnwys prif ‘Sylw’ wrth ochr pob sgôr, i ddangos a oedd angen i’r agwedd hon ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu’n **ARW** yn y dyfodol agos.

| ***Sgôr Diogelu*:** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***69%*** | ***Sylw:***<br>***Angen Gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd – Sgôr Risg o Niwed*:** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***65%*** | ***Sylw:***<br>***Angen Gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd – Sgôr Tebygolrwydd o Aildroseddu*:** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:***<br>***74 %*** | ***Sylw:***<br>***Angen Gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o’r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## **Argymhellion** (rhoddir y person sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad a chynllun amserol o safon uchel, sy'n defnyddio Asset, yn cael ei gwblhau pan mae'r achos yn dechrau (Rheolwr TTI)

(2) bod asesiad amserol ac o safon uchel yn cael ei gwblhau ar y dechrau er mwyn asesu statws agored i niwed yr unigolyn, a'r *Risg o Niwed*, fel sy'n briodol ar gyfer y ddedfryd dan sylw (Rheolwr TTI)

(3) o ganlyniad i'r asesiad, bod y cynllun ymyrryd yn cynnwys manylion penodol am yr hyn a gaiff ei wneud i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc, i'w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu, ac i leihau unrhyw *Risg o Niwed i eraill* a ganfuwyd (Rheolwr TTI)

(4) bod yr asesiad Asset a'r cynllun gwaith gyda'r achos yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn ddigon aml i gydymffurfio â safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc ac yn dilyn unrhyw newid arwyddocaol (Rheolwr TTI)

(5) bod tystiolaeth yn y ffeil i ddangos bod y rheolwyr yn ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd, yn enwedig penderfyniadau sgrinio, rheoli risg a chynlluniau rheoli statws agored i niwed fel sy'n briodol i'r achos dan sylw (Rheolwr TTI).

## Y Camau Nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio'n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y defnyddwyr gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd ugain o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn.

- Disgrifiodd bob un ond un o'r plant a phobl ifanc a gwblhaodd holiadur eu hunain fel Prydeinig neu Gymreig gwyn.
- Roedd deunaw o'r ugain o blant a phobl ifanc wedi derbyn copi o'r cynllun ymyrryd neu gontract gorchymyn atgyfeirio ac roeddent yn deall yn iawn pam fod yn rhaid iddynt fynychu'r TTI.
- Roedd pob un o'r 20 o ymatebwyr yn credu bod y TTI 'yn wirioneddol awyddus i'w helpu', ac roedd 19 yn teimlo bod staff yn gwrando'n astud ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud.
- Dywedodd y plant a'r bobl ifanc fod y TTI yn bendant yn gweithredu'n i'w helpu gyda phroblemau perthnasol ym mhob achos.
- Dywedodd 16 o'r 20 ymatebwr eu bod yn credu fod eu bywydau wedi gwella o ganlyniad i'r gwaith a wnaethpwyd gyda'r TTI.
- O'r rhai a ymatebodd , rhoddodd pob un o'r plant a phobl ifanc sgôr oedd yn o leiaf 8 allan o 10 i wasanaeth y TTI.
- Roedd ymatebion testun am ddim gan blant a phobl ifanc yn dangos eu bod yn teimlo bod y TTI wedi bod yn fuddiol iawn iddynt a bod y gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n dda ac yn effeithiol.

### Dioddefwyr

Cafodd pump o holiaduron eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Roedd pedwar o'r pum dioddefwr a ymatebodd yn teimlo bod y TTI wedi egluro'r gwasanaeth y gallent ei gynnig ac wedi ystyried eu hanghenion fel unigolion.
- Dywedodd bob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cyfle i drafod unrhyw bryderon oedd ganddynt.
- Dywedodd un ymatebwr ei fod wedi elwa ar waith a wnaethpwyd gan y plentyn neu berson ifanc i wneud iawn.
- Nid oedd dau o'r pump yn teimlo bod y TTI wedi talu digon o sylw i'w diogelwch.
- Roedd dau o'r ymatebwyr yn teimlo'n gwbl fodlon â'r gwasanaeth a gynigiwyd; dywedodd un ei fod yn teimlo bod pob agwedd wedi derbyn sylw digonol.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol**<br>**1.2a** | Yn ystod yr ymweliad cyntaf i gael ei asesu, Roedd Vince wedi bygwth achosi difrod i dŷ ei dad. Bu'r gweithiwr yn archwilio'i resymau dros wneud bygythiadau o'r fath a thawelodd i sefyllfa. Rhoddwyd gwybodaeth i Vince a'i dad am y cymorth fyddai ar gael iddynt a gwnaethpwyd atgyfeiriad brys at y gwasanaethau plant. Cafodd yr heddlu hefyd eu rhybuddio am y posibilrwydd o aflonyddwch er mwyn eu galluogi i alw yn y cartref yn ddiweddarach y noson honno i atal troseddu pellach ac i sicrhau heddwch. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol**<br>**2.3a** | Yn achos James, llwyddodd y rheolwr achos i ddeall ei Risg o Niwed Difrifol gynyddol a'i fod yn fwy agored i niwed. Er mwyn rheoli'r risgiau cynyddol, cynyddwyd nifer y cysylltiadau o ymweliadau wythnosol i ddyddiol (gan gynnwys penwythnosau). Trefnwyd cysylltiadau gyda'r heddlu, gweithwyr TTI a'r sector gwirfoddol. Gwnaethpwyd cynlluniau hefyd i'w helpu i ddefnyddio'i amser hamdden mewn ffordd adeiladol. Ymgymerodd y TTI â'r prif gyfrifoldeb am gydlynu gweithgareddau drwy'r MAPPA. |
| **Canlyniadau**<br><br>**Mae Prawf Cyffredinol**<br>**3.1a** | Roedd Terry wedi cael gwared ar enillion byrgleriaeth mewn coedwig ger cartref y dioddefwr. Gofynnodd y rheolwr achos i'r heddlu gysylltu â'r dioddefwr i ofyn am eu cydsyniad i ganiatáu i'r troseddwr gael ei hebrwng i'r coed i chwilio am yr hyn a ddygwyd. Cydsyniodd y dioddefwr ac roedd Terry yn gallu olrhain y camau a gymerodd ar ddiwrnod y drosedd gyda'r rheolwr achos a daethpwyd o hyd i'r eiddo a ddygwyd. Roedd y troseddwr yn gallu cwrdd â'r dioddefwr a dychwelyd yn bersonol beth o'r eiddo a ddygwyd ganddo. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1 Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***76%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am RoND yn defnyddio Asset wedi'i wneud mewn 92% o achosion ac, ym mhob un ond chwech, yn brydlon. Roedd y sgrinio'n gywir mewn 73% o achosion. Cynhaliwyd dadansoddiad RoND llawn ym mhob achos lle nodwyd hynny gan y sgrinio.

(2) Bu'r asesiad RoND yn gwneud defnydd digonol o'r holl wybodaeth briodol, gan gynnwys MAPPA ac asesiadau eraill, mewn 89% o achosion.

(3) Roedd Cynllun Rheoli Risg (RMP) wedi'i ysgrifennu mewn wyth allan o naw achos lle'r oedd yn ofynnol; ar y cyfan roedd y rhain wedi'u cwblhau ar amser.

(4) Ym mhob achos bron, roedd manylion am yr asesiad a rheoli RoND wedi'u cyfleu'n briodol i staff ac asiantaethau perthnasol.

(5) Anfonwyd yr asesiad o RoND at y sefydliad caethiwo o fewn 24 awr o'r ddedfryd ym mron pob achos perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Bu sawl achos lle'r oedd y drosedd y cyfeiriwyd ati yn yr asesiad yn anghywir, ac roeddent wedi'u copïo o asesiad cynharach.

(2) Mewn pedwar o'r deg achos lle nad oedd angen RMP, er bod tystiolaeth o RoN, nid oedd hyn wedi'i gydnabod ac ni chymerwyd camau i reoli'r RoN.

(3) Dim ond hanner y RMP a gynhyrchwyd oedd o safon digon uchel yn ôl yr asesiad. Nid oedd ystyriaethau dioddefwyr ac amrywiaeth wedi cael digon o sylw mewn nifer o achosion. Roedd rolau a chyfrifoldebau a'r ymatebion a gynlluniwyd yn aneglur neu'n annigonol mewn nifer o achosion. Cafwyd goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr mewn llai na hanner yr asesiadau RoN a'r RMP.

| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***76%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd asesiad ToA cychwynnol ei gynnal mewn 90% o achosion; ac roedd yr asesiad wedi'i gwblhau ar amser gan amlaf. Roedd y plentyn neu berson ifanc wedi chwarae rhan amlwg mewn 92% ohonynt, gyda rhieni / gofalwyr wedi cymryd rhan yn y broses mewn tri chwarter o achosion perthnasol. Roedd yr asesiad wedi'i rannu bob tro â'r sefydliad caethiwo mewn achos o ddedfryd o gaethiwed.

(2) Roedd y ffurflen *Beth Ydych CHI'N ei Feddwl?* wedi cael ei defnyddio fel sail i'r asesiad cychwynnol mewn 59% o achosion. Cafwyd cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol y plant mewn 84% o achosion ac â darparwyr ETE mewn 72% o'r sampl. Aseswyd arddulliau dysgu mewn mwy na hanner yr achosion a archwiliwyd.

(3) Lluniwyd cynlluniau neu gontractau ymyrryd ar gyfer hyd at 90% o blant a phobl ifanc. Yn yr achosion lle ceid cynllun, roedd y plant a phobl ifanc a rhieni / gofalwyr yn gysylltiedig â'r broses bron bob tro. Cwblhawyd y cynlluniau ar amser mewn 80% o achosion.

(4) Roedd cynlluniau ymyrryd bron bob tro'n adlewyrchu diben y ddedfryd, yn rhoi darlun clir o'r gorchymyn ac yn rhoi pwyslais ar newid y gellid ei gyflawni.

(5) Roedd amcanion yn y cynllun ymyrryd wedi'u gosod mewn trefn yn ôl anghenion yn seiliedig ar y troseddu mewn 83% o achosion; roeddent yn sensitif i ystyriaethau amrywiaeth mewn 77% o achosion ac roeddent yn rhoi sylw i ystyriaethau'r dioddefwyr mewn 86% o achosion perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd safon yr asesiad cychwynnol o ToA yn ddigon uchel mewn traean o achosion. Y prif resymau pam eu bod yn annigonol oedd tystiolaeth aneglur neu annigonol, methiant i ganfod ffactorau oedd yn gysylltiedig â throseddu ac ystyriaethau amrywiaeth.

(2) Nid oedd asesiadau cychwynnol yn gwneud defnydd o ddarparwyr gwasanaeth eraill bob amser. Ni fu digon o gysylltiad â gwasanaethau iechyd corfforol (50%), gwasanaethau iechyd meddwl (55%) a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (65%).

(3) Roedd asesiadau cychwynnol wedi'u hadolygu'n ddigonol mewn 54% yn unig o achosion.

(4) Roedd cynlluniau ymyrryd yn rhoi sylw digonol i ffactorau oedd yn gysylltiedig â throseddu mewn 69% yn unig o achosion, ac roeddent yn adlewyrchu safonau cenedlaethol mewn dim ond 78%. Nid oeddent yn ymgorffori RMP mewn hanner yr achosion perthnasol.

(5) Roedd yr amcanion yn y cynlluniau ymyrryd yn rhoi blaenoriaeth yn ôl RoN ac yn ymgorffori gwaith Diogelu priodol mewn 58% yn unig o achosion perthnasol.

(6) Dim ond 56% o gynlluniau ymyrryd oedd wedi'i hadolygu'n ddigonol.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***69%*** | ***Sylw:***<br>***Angen Gwella RHYWFAINT*** |

## *Cryfderau:*

(1) Cynhaliwyd sgrinio am statws agored i niwed gan ddefnyddio Asset mewn 89% o achosion; cwblhawyd y sgrinio'n brydlon mewn 84% o achosion.

(2) Yn achos rhai a ddedfrydwyd i gaethiwed, roedd ystyriaethau'n ymwneud â statws agored i niwed wedi'u cyfleu'n brydlon i'r sefydliad caethiwo ym mhob un o'r achosion perthnasol ond un. Gwelwyd tystiolaeth o gydgysylltu a rhannu gwybodaeth effeithiol â sefydliadau caethiwo.

(3) Roedd yr asesiad diogelu wedi'i adolygu ar ôl cyfnodau perthnasol yn ystod ymyriadau mewn 70% o achosion.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd llai na dau draean o ymarferion sgrinio ar gyfer statws agored i niwed yn gywir.

(2) Roedd VMP wedi'i gwblhau ar amser mewn 58% yn unig o achosion perthnasol, ac roedd eu safon yn ddigon uchel mewn 37% yn unig o achosion.

(3) Yn yr achosion lle cafwyd VMP roedd yn cyfrannu at ac yn sail i ymyriadau mewn 64% o achosion.

(4) Bu goruchwylio effeithiol gan reolwyr o asesiadau o statws agored i niwed mewn mymryn dros chwarter yr achosion perthnasol.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 74%**

**SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:**

Nid oedd pob aelod o staff yn y TTI yn hyderus wrth ddefnyddio'r system electronig ar gyfer cofnodi achosion, a ddisgrifiwyd fel system araf a rhwystredig i'w defnyddio. Canfuwyd fod hen asesiadau'n cael eu copïo heb eu diweddaru, a bod sgorio ar gyfer ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu a Diogelu'n anghyson. Roedd peth tystiolaeth hefyd i ddangos bod rheolwyr achos unigol yn ôl-ddyddio asesiadau. Nid oedd Adroddiadau Cyn-dedfrydu'n (ACD) aml yn gwahaniaethu neu roeddent yn drysu rhwng RoNau a ToA. Er bod gan y TTI systemau ar waith i sicrhau bod RMP a VMP yn cael eu cynhyrchu, nid oedd safon y cynlluniau hyn yn aml yn ddigon da, ac nid oeddent yn cyfrannu at y broses oruchwylio. Mewn un achos lle dylid bod wedi hysbysu MAPPA, nid oedd hynny wedi digwydd, er bod tystiolaeth bod achosion a oedd yn ateb y meini prawf ar gyfer eu hatgyfeirio fel achosion MAPPA categori 3 yn cael eu hatgyfeirio.

## 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br><br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill.* | |
| ***Sgôr:***<br><br>***59%*** | ***Sylw:***<br><br>***Angen gwella SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau*

(1) Roedd staff y TTI wedi cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth mewn 72% o achosion; yn achos rhai mewn caethiwed roedd y ffigur yn 100%.

(2) Roedd ymweliadau cartref pwrpasol wedi'u cynnal o ran y RoN posibl, ac o ran Diogelu drwy gydol y ddedfryd yn y rhan fwyaf o achosion.

(3) Mewn 78% o achosion, roedd adnoddau priodol wedi'u dyrannu, yn briodol ar gyfer y RoN a aseswyd drwy gydol y ddedfryd.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd *RoN* wedi'i adolygu'n unol â'r amserlenni gofynnol mewn 48% yn unig o achosion, ac yn dilyn newid arwyddocaol mewn dim ond 32%. Roedd newidiadau mewn ffactorau risg wedi'u canfod yn gyflym mewn 37% yn unig o achosion, a gweithredwyd arnynt yn briodol mewn dim ond 42%.

(2) Roedd tri o'r pedwar achos cymwys yn y sampl wedi'u hatgyfeirio at MAPPA. Atgyfeiriwyd un o'r rhain o dan y categori anghywir. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r rheolwr achos, ni weithredwyd yn gyflym ar y camau a nodwyd yn y MAPPA ac nid oedd safon cofnodion y cyfarfod yn ddigon da.

(3) Ni roddwyd blaenoriaeth ddigonol i ddiogelwch dioddefwyr. Cynhaliwyd asesiad llawn o ddiogelwch dioddefwyr mewn dim ond hanner yr achosion perthnasol.

(4) Yn achos achosion yn y gymuned, roedd ymyriadau i reoli RoN wedi'u cyflawni yn ôl y bwriad mewn 67% o achosion, ond cawsant eu hadolygu'n briodol mewn 38% ohonynt yn unig.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br><br>Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd. | |
| ***Sgôr:***<br><br>***79%*** | ***Sylw:***<br><br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd ymyriadau yn y gymuned wedi'u cynllunio i leihau'r ToA mewn 89% o achosion. Roeddent yn cael eu cyflawni'n unol â'r cynllun mewn 86% o achosion ac roedd eu safon yn dda mewn 78%.

(2) Roedd y TTI yn cyfrannu'n briodol at adolygu ymyriadau mewn caethiwed ym mhob achos perthnasol.

(3) Mewn 83% o achosion roedd adnoddau priodol wedi'u dyrannu yn ôl y ToA a aseswyd drwy gydol y ddedfryd.

(4) Mewn dros 90% o achosion, roedd gweithiwr y TTI wedi bod wrthi'n annog ac yn cynorthwyo'r plentyn neu berson ifanc ac yn atgyfnerthu ymddygiad positif.

(5) Ym mhob achos roedd gweithwyr y TTI wedi bod wrthi'n cynnal y rhieni / gofalwyr drwy gydol elfen gaethiwed y ddedfryd. Yn y gymuned, roedd y ffigur perthnasol yn 77%.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ymyriadau i leihau'r ToA wedi'u hadolygu'n briodol mewn dim ond hanner yr achosion.

(2) Roedd nifer fach o achosion lle nad oedd y TTI yn gallu cael gafael neu ddarparu adnoddau digonol i fynd i'r afael â phroblemau iechyd emosiynol a meddyliol a chamddefnyddio sylweddau.

| 2.3 Diogelu'r plentyn neu berson ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***74%*** | ***Sylw:***<br>***Angen Gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Gwelwyd tystiolaeth fod camau wedi'u cymryd ar unwaith i ddiogelu ac gwarchod y plentyn neu berson ifanc ym mhob achos caethiwed perthnasol.

(2) Roedd staff y TTI wedi cydweithio â darparwyr cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg i hybu Diogelwch a lles plant a phobl ifanc mewn 77% o achosion. Roeddent wedi gweithio'n effeithiol â gwasanaethau cymdeithasol plant, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl mewn 67%, 76% a 73% o achosion yn y drefn honno.

(3) Yn achos achosion o gaethiwed roedd cydweithio da ar y cyfan gyda'r rhan fwyaf o'r darparwyr gwasanaeth perthnasol, gyda threfniadau digonol ar waith i reoli'r pontio o gaethiwed i'r gymuned.

(4) Roedd yr holl staff perthnasol yn cynorthwyo ac yn hybu lles y plant a phobl ifanc drwy gydol y ddedfryd ym mhob achos o gaethiwed ac mewn 70% o achosion yn y gymuned.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Gwelwyd tystiolaeth fod yr holl gamau angenrheidiol a brys wedi'u cymryd i ddiogelu ac gwarchod y plentyn neu berson ifanc mewn 62% o achosion perthnasol yn y gymuned.

(2) Roedd gwaith i ddiogelu ac gwarchod plant a phobl ifanc eraill sy'n gysylltiedig ag achosion yn y gymuned wedi'i wneud mewn 64% yn unig o achosion perthnasol.

(3) Roedd diffyg cydweithredu i hybu lles a Diogelu mewn dau achos o gaethiwed ag anghenion iechyd emosiynol a meddwl.

(4) Bu rheolwyr yn goruchwylio anghenion Diogelu a statws agored i niwed yn effeithiol mewn dim ond hanner yr achosion perthnasol.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 71%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:**

Roedd peth tystiolaeth i ddangos nad oedd achosion yn cael eu goruchwylio'n unol â'r safonau cenedlaethol bob amser o ran cysylltiadau. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn achosion o gosb yn y gymuned ac adsefydlu lle'r oedd rhai gweithwyr yn credu bod y cysylltiad gan yr ardal brawf a oedd yn darparu gwaith di-dâl yn ddigon. Roedd y trefniadau i lenwi yn ystod absenoldeb a salwch staff hefyd yn annigonol, a olygai bod plant a phobl ifanc yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth, er eu bod o bosibl wedi'u hasesu fel rhai a oedd yn dangos lefel uchel o RoN. Roedd tystiolaeth, fodd bynnag, o reolwyr achos a oedd yn pennu lefelau cyswllt â phlant a phobl ifanc a oedd yn uwch na'r safon sylfaenol mewn ymateb i gynnydd mewn RoN a statws agored i niwed. Roedd nifer rhy isel o asesiadau a chynlluniau'n cael eu hadolygu fel y dylent. Nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn gynhwysfawr.

## 3. CANLYNIADAU

| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***52%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Mewn 84% o achosion lle'r oedd angen gweithgarwch gorfodi, roedd wedi'i gyflawni hyd at safon ddigonol.

(2) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu berson ifanc yn ddiogel mewn tri chwarter yr achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd *RoN* wedi'i reoli'n effeithiol mewn 60% yn unig o achosion.

(2) Bu gwelliant cyffredinol mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu a Diogelu mewn dim ond ychydig dros draean yr achosion.

(3) Bu gostyngiad yn amledd y troseddu mewn ychydig mwy na thraean yr achosion.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***76%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Yn ystod cam caethiwo’r DTOau, roedd sylw llawn wedi’i roi ym mhob achos i ailintegreiddio i’r gymuned.

(2) Roedd camau wedi’u cymryd, neu roedd cynlluniau ar waith i sicrhau bod modd cynnal deilliannau positif ym mhob achos o gaethiwed.

(3) Talwyd sylw llawn i sicrhau bod y plant a phobl ifanc yn ailintegreiddio i’r gymuned mewn bron i dri chwarter yr achosion yn y gymuned.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd camau wedi’u cymryd, neu roedd cynlluniau ar waith i sicrhau bod modd cynnal deilliannau positif mewn 67% o achosion yn y gymuned.


### SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 60%

### SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:

Roedd peth tystiolaeth i ddangos nad oedd staff y TTI yn pennu amcanion rhwym mewn amser ac yn eu hadolygu’n briodol bob amser. Roedd hyn yn amharu ar y gwaith o sicrhau tystiolaeth i ddangos deiliannau positif. Roedd y gostyngiad yn cyfyngu ar leihau ffactorau sy’n gysylltiedig â throseddu a Diogelu’n siomedig. Ar y cyfan, roedd achosion o gaethiwed yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer rhyddhau ac ailintegreiddio.

## Atodiad 1: Crynodeb

**Arolygiad Achosion Craidd Conwy a Sir Ddinbych**
**Sgoriau Meini Prawf Cyffredinol**



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Mae ardal TTI Conwy Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru ac mae'n cynnwys dau Gyngor Sir.

Mae poblogaeth Conwy'n 109,596 ac mae poblogaeth Sir Ddinbych yn 93,065 yn ôl Cyfrifiad 2001, roedd 10% o'r boblogaeth rhwng 10 ac 17 oed yng Nghonwy c yn 10.5% yn Sir Ddinbych. Roedd hyn yn is a mymryn yn is (yn y drefn honno) na chyfartaledd Cymru, sy'n 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Conwy Sir Ddinbych yn wyn Brydeinig yn bennaf (98.9% yng Nghonwy; 98.8% yn Sir Ddinbych). Roedd y boblogaeth o bobl ddu a lleiafrifol ethnig (1.1% Conwy; 1.2% Sir Ddinbych) yn is na chyfartaledd Cymru, sy'n 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a riportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad llys yn 2008/2009, sef 53 am bob 1,000, yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Tîm Troseddwyr Ifanc (TTI)

Roedd ffiniau'r TTI o fewn yr un ffiniau ag ardal Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

Roedd y TTI wedi'i leoli'n strategol o fewn adran Plant a Theuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd yn cael ei reoli gan Reolwr Gwasanaethau Strategol.

Roedd Bwrdd Rheoli'r TTI yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Conwy. [Roedd yr holl bartneriaid statudol yn mynychu'n rheolaidd.]

Roedd Pencadlys y TTI yn nhref Bae Colwyn yng Nghonwy. Roedd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y ddwy sir. Roedd ISSP yn cael ei ddarparu'n fewnol.

### Data Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB)


Roedd crynodeb yr YJB o ddangosyddion cenedlaethol a oedd ar gael ar adeg yr arolygiad yn cyfeirio at y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Conwy Sir Ddinbych o ran sicrhau bod y plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r TTI mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas yn 73.2%. Roedd hyn yn welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 69.0%.


Roedd perfformiad o ran sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd yn 96.6%. Roedd hyn yn welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn well na chyfartaledd Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 77%, sy'n well na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).


# Atodiad 3a: Siartiau o ddata’r Arolygiad



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Ebrill 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

Mae siartiau data yn yr adroddiad hwn ar gael yn electronig drwy wneud cais.

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Asset | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu |
| CAF | Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd. |
| *adeiladol a chyfyngu* | Ymyriad adeiladol yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau *Risg* unigolyn o achosi *Niwed i Eraill*.<br>Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai *ymyriad cyfyngu* (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol* |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, |

| | |
|---|---|
| | carchardai ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno *Risg o Niwed* uwch i eraill |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys |
| 'Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>'felly byddai 110% yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 74%. |
| RMP | Cynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolyn o achosi Niwed |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu* |
| *'Gwaith RoN', neu 'Waith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngu, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi Risg o Niwed i eraill |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd ac effaith / difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod Risg o Niwed yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o *effaith* / sy'n llai *difrifol* yn *debygol* |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks |
| YOS/T /TTI | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM

6th Floor Trafford House

Chester Road

Stretford

Manceinion

M32 0RS

Ffôn - 0161 869 1300

Gellir gwneud cais am yr adroddiad mewn fformatau eraill

ISBN: 978-1-84099-355-4